

Y Weithdrefn Apelio mewn perthynas â Phenderfyniadau gan y Panel Cydnabod

Sail Apêl

1. Mae gan unrhyw ymgeisydd i'r Panel Cydnabod yr hawl i gyflwyno apêl ar y sail bod diffygion neu afreoleidd-dra wrth gynnal asesiad neu adolygiad o'u cais lle mae achos prima facie y gallai diffygion, afreoleidd-dra neu gyngor fod wedi cael effaith andwyol ar y canlyniad.
2. Ni fydd apeliadau sy'n amau barn academiaidd y Panel Cydnabod yn dderbyniol.

Cyflwyno Apêl

3. Bydd unrhyw apêl yn cael ei hanfon i'r Swyddfa Academaidd ar Ffurflen Apêl yr Uned (**Atodiad E2.25**) fel arfer ddim hwyrach na 21 diwrnod ar ôl yr hysbysiad swyddogol o'r dyfarniad. Ni fydd hysbysiad apêl syml a roddir yn ysgrifenedig gan ymgeisydd o fewn y terfyn amser uchod yn cael ei ystyried yn apêl ac ni chaiff ei dderbyn.
4. Ystyrir bod apeliadau a ddaw i law ar ôl 21 diwrnod allan o amser ac ni chânt eu hystyried oni bai bod yr apelydd wedi darparu tystiolaeth annibynnol i ddangos rhesymau cymhellol pam na chyflwynwyd yr apêl o fewn yr amserlen briodol.
5. Ni fydd y Brifysgol yn ystyried apêl a gyflwynir fwy na 12 mis ar ôl cyfarfod perthnasol y Panel Cydnabod
6. Bydd y Swyddfa Academaidd yn cydnabod derbyn apêl o fewn 7 diwrnod fel arfer. Ar ôl derbyn apêl, bydd Swyddog Achos yn cael ei benodi.

Ymchwiliad

7. Bydd y swyddog priodol yn sicrhau bod y ffeithiau'n cael eu gwirio ac ar ôl cwblhau eu hymholiadau, bydd yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Swyddfa Academaidd yn nodi amgylchiadau'r achos ac yn cadarnhau ei ganfyddiadau.
8. Bydd gan y swyddog achos y pŵer i wneud un o'r penderfyniadau a ganlyn:
 - Gwrthod yr apêl a chadarnhau dyfarniad gwreiddiol y Panel Cydnabod;
 - Cadarnhau'r apêl a chyfeirio'r achos at Banel Cydnabod arbennig i adolygu'r dyfarniad cychwynnol.

9. Bydd y swyddog achos yn cynnal gwerthusiad cychwynnol i wirio bod yr apêl:
 - yn cael ei gyflwyno dan y gweithdrefnau cywir;
 - yn dod o fewn y seiliau y gellir gwneud apêl arnynt;
 - yn cael ei gyflwyno o fewn unrhyw derfyn amser;
 - yn y fformat gofynnol.
10. Yn dilyn y gwerthusiad cychwynnol, bydd y Swyddog Achos yn penderfynu a oes achos clir dros apelio.
11. Os nad oes achos i apelio neu os yw'r apêl wedi dyddio, bydd y Swyddog Achos yn gwrthod yr apêl, fel arfer o fewn 28 diwrnod o'i dderbyn. Hysbysir yr apelydd bod yr apêl wedi'i gwrthod drwy gyfrwng Llythyr Canlyniad Apêl.
12. Os oes achos i apelio, yna bydd yr achos yn mynd ymlaen i ymchwiliad. Bydd y Swyddog Achos yn sicrhau bod ffeithiau'r achos yn cael eu gwirio a, lle bo'n briodol, gall ofyn am eglurhad gan unigolion perthnasol.
13. Os bydd y Swyddog Achos, yn dilyn yr ymchwiliad, yn penderfynu bod y dyfarniad gwreiddiol yn amhriodol oherwydd diffygion neu afreoleidd-dra wrth gynnal asesiad neu adolygiad o'r cais sydd wedi cael effaith andwyol ar y dyfarniad terfynol a'r canlyniad, yna bydd y Swyddfa Academaidd yn trefnu Panel Cydnabod arbennig i ailystyried y dyfarniad.
14. Rhoddir gwybod i'r apelydd bod yr achos wedi'i gyfeirio'n ôl i Banel Cydnabod arbennig a bydd yn cael gwybod am benderfyniad y Panel Cydnabod arbennig maes o law. Bydd y Panel Cydnabod arbennig, sy'n cynnwys Cadeirydd, cynrychiolydd allanol a chynrychiolaeth o'r Panel cydnabod gwreiddiol, yn ystyried adroddiad y swyddog achos, gan gynnwys argymhellion neu gyngor lle bo'n briodol i amgylchiadau'r achos, ynghyd â'r holl ddogfennau ategol. Bydd y panel cydnabod arbennig fel arfer yn cyfarfod o fewn 14 diwrnod i dderbyn adroddiad y swyddog achos. Bydd penderfyniad dilynol y Panel Cydnabod arbennig yn cael ei anfon i'r Swyddfa Academaidd.
15. Gall penderfyniad y Panel Cydnabod arbennig newid canlyniad dyfarniad cyffredinol yr apelydd neu beidio. Hysbysir yr apelydd o benderfyniad y Panel Cydnabod arbennig drwy lythyr Canlyniad Apêl (a fydd fel arfer ar ffurf electronig) fel arfer

o fewn 14 diwrnod i gyfarfod y Panel Cydnabod arbennig. Ni fydd hawl i apelio o dan weithdrefnau mewnol y Brifysgol yn erbyn penderfyniad Panel Cydnabod arbennig.

16. Os bydd y Panel Cydnabod arbennig yn penderfynu bod yr apelydd yn gymwys i gael cydnabyddiaeth, hysbysir yr apelydd o hyn a chofnodir y dyfarniad gyda'r Academi Addysg Uwch (HEA).

Adrodd ar Apeliadau

17. Bydd y Swyddfa Academiaidd yn adrodd yn flynyddol i AU Ymlaen ar weithrediad y gweithdrefnau hyn ar ffurf sy'n cynnal cyfrinachedd ac yn galluogi'r Uned i fyfyrio ar wersi a ddysgwyd o apeliadau ymgeiswyr a lledaenu cyngor yn unol â hynny.